

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

9.30yb – 8 Rhagfyr 2021
Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Sarah Davies
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Prif Uwcharolygydd Sian Beck – Gwasanaethau Corfforaethol James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
ARALL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
1	Ymddiheuriadau	Cadeirydd			
2	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 yn gywir.	Cadeirydd		2 - 10	5 mun
3	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd		11 - 25	15 mun
	Eitemau Sefydlog				
4	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth	26 - 30	10 mun

5	Archwilio Mewnol a. Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr (yn cynnwys crynodeb o Adolygiad Dilynol) b. Archwilio Mewnol SICA 2020-21	a – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb b – Rheolwr Archwilio TIAA	Sicrwydd	31 - 44 45 - 57	10 mun
6	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Sicrwydd	58 - 66	10 mun
7	Rhaglen Waith 2021/22	Prif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	67 - 70	5 mun
Eitemau Sefydlog					
8	Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)	Archwilio Cymru	Sicrwydd	71 - 78	10
9	Rhaglen Gyfalaf – diweddariad cynnydd 2021/22	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	Gwybodaeth	Llafar	10
10	Adroddiad Cyfreithiol	Cyfreithiwr yr Heddlu	Gwybodaeth	79 -97	10
11	Diweddariad sicrwydd; sicrwydd o gyfarfodydd lefel uchel – Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd	98 - 101	5
12	Rheoli'r Trysorlys	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	102 - 113	10
13	Diweddariad Cod FM	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	114 - 130	10
14	Moeseg	Cadeirydd Pwyllgor Moeseg	Sicrwydd	131	10
Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 28 Mawrth 2022 28 Gorffennaf 2022 6 Hydref 2022 8 Rhagfyr 2022					
		CYFANSWM			2 awr



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

6 HYDREF 2021

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Allan Rainford
Sarah Davies
Julie Perkins

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol
Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu
Prif Uwcharolygydd Sian Beck, Gwasanaethau Corfforaethol
Anne Mathews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
Dewi Williams – Cyfrifydd Rheolwyr
Kerrie Ambrose – Pennaeth Newid a Chydweithrediad Strategol

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Andrew Dunbobbin – Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Eitem 9 yn unig)
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Jonathan Maddock, TIAA
Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

ARSYLWYR

Y Cynghorydd Arnold Wooley
Y Cynghorydd Edgar Owen
Y Cynghorydd Huw Irving

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ymddiheuriadau: Helen Cargill, TIAA

Dim datganiadau o ddiddordeb.

2. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Awst 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod gydag un newid.

Gweithrediad 7 – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drefnu cyfarfod briffio i drafod Risgiau Prosiect gydag Arweinydd Llywodraethu'r Cydbwyllgor Archwilio.

3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Gofynnwyd i aelodau nodi'r cyfeirnod newydd i'r cofnod gweithrediadau. Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 145b, 4/8/2021 – 1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 9, 10, ac 11.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i ddyddiadau gael eu rhoi yn y tabl gweithrediadau a nodi perchennog unigol o fewn y golofn "unigolyn cyfrifol" ac egluro'r gweithrediad/disgrifiad

Gweithrediad 1	Y Cynorthwydd Personol i ddiweddarau'r tabl i ddangos dyddiadau a'r unigolyn sy'n gyfrifol am weithrediadau ac egluro'r gweithrediad/disgrifiad.
-------------------	--

4. DIWEDDARIAD SEFYDLIAD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd ddiweddariad am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Awst.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Croesawodd y Prif Swyddog Gweithredol aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd a oedd yn arsylwi cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio heddiw.

Cynhaliwyd Panel Heddlu a Throsedd prysur iawn ar 20 Medi lle cynhaliwyd gwrandawriad cadarnhau ar gyfer y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd newydd ac fe gadarnhawyd y penodiad yn unfrydol. Cytunwyd ar Adroddiad Blynyddol 2020/21 hefyd yn y cyfarfod ac mae ar gael ar wefan SCHTh. Cymeradwywyd y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd hefyd ac fe gaiff ei ddsbarthu i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth pan gaiff ei gyhoeddi.

Gweithrediad 2	Y Prif Weithredwr i anfon y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio unwaith caiff ei gyhoeddi.
-------------------	---

Mae £336K o gronfeydd pellach wedi'u sicrhau yn y cylch ceisiadau Strydoedd Diogelach. Defnyddir yr arian hwn i gynorthwyo ymdrin â thrais yn erbyn merched a genethod mewn manau cyhoeddus.

Mae Archwilio Mewnol yn ymgymryd ag adolygiad o Wasanaethau Comisiynu ar hyn o bryd o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac fe'i rhennir gydag aelodau faes o law.

Llongyfarchodd aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio bawb am sicrhau'r arian Strydoedd Diogelach ychwanegol. Maent yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad mewnol ar y Gwasanaethau Comisiynu.

Heddlu Gogledd Cymru

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod gwaith yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn parhau yn y cefndir er bod amseru unrhyw gyhoeddiadau'n parhau'n ansicr.

Mae'r "Ardoll Gofal Iechyd a Chymdeithasol" a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth yn dal i gael ei weithio trwyddo. Mae'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar y cyflogwr eto i'w ddeall yn llawn. Bydd senarios amrywiol yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Ariannol Tymor Canolog. Ond hyd yn hyn, ni ddeallir y goblygiadau manwl. Gobeithir/disgwylir y derbynnir cyllid ychwanegol gan y Trysorlys.

Penodwyd Helen Wynne-Williams yn Bennaeth Technoleg am gyfnod penodol o ddwy flynedd ac mae Nigel Harrison wedi'i benodi fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro. Cynhelir proses recriwtio ffurfiol ar gyfer rôl y Prif Gwnstabl Cynorthwyol faes o law.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ynghylch pam fod y swydd Pennaeth Technoleg am gyfnod penodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod hwn yn un o nifer o opsiynau a ystyriwyd a phenderfynwyd mai hwn oedd yr opsiwn gorau i bawb.

Gofynnwyd a oedd gan yr Heddlu/SCHTh unrhyw gynlluniau am ymgysylltiad cyhoeddus pellach yn dilyn y sesiwn Holi ac Ateb a gynhaliwyd yn ddiweddar ar Twitter gan nad pawb sydd â mynediad/yn defnyddio'r llwyfan hwn. Hysbyswyd fod ôl-drafodaeth wedi'i chynnal er mwyn gweld pa mor dda oedd hyn wedi gweithio ond fod hyn ond yn un rhan o'r broses ymgynghori ddiweddar. Cafwyd arolwg ar-lein/papur ei ymgymryd hefyd o ran ymgynghori gyda'r cyhoedd ynghylch y blaenoriaethau a osodwyd o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Y Prif Weithredwr i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y Strategaeth Gyfathrebu.

Gweithrediad 3	Y Prif Weithredwr i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y Strategaeth Gyfathrebu wrth fynd ymlaen.
-------------------	---

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y cynnydd a wnaed o ran cyflwyno'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol a buasant yn croesawu sesiwn At Wraidd y Mater i gwmpasu hyn. Mynegodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y byddai cyfarfodydd all-lein yn cwmpasu'r maes hwn orau a gwnânt drefnu cyfarfod gydag Arweinydd TG y Cydbwyllgor.

Gweithrediad 4	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drefnu cyfarfodydd all-lein i drafod y Rhaglen Alluogi Genedlaethol gydag Arweinydd TG y CA.
-------------------	---

Gofynnodd Aelod o'r Cydbwyllgor am eglurhad pellach ar y rhaglen newid/lywodraethu sefydliadol ehangach a sut maent yn cyfuno i ddarparu llywodraethu ynghylch cyflawni. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi sylw i faterion llywodraethu ehangach a chylchredeg y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol ac aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Gweithrediad 5	Y Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol ynghylch effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraeth i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.
-------------------	--

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi sicrwydd fod Heddlu Gogledd Cymru yn edrych yn agos ar argymhellion sy'n codi o lofruddiaeth Sarah Everard ac mae'n fodlon rhoi manylion pellach yn sesiwn gaeedig y Cydbwyllgor Archwilio.

5. **DIWEDDARIADAU'R HMICFRS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur a'r ymdriniaeth newydd y byddai'r arolygon PEEL yn eu cymryd wrth symud ymlaen.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y chwech a deugain argymhelliad sydd angen eu symud ymlaen a holont sut y monitirir y rhain. Eglurodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod cynnydd yn cael ei fonitro ar lefel Prif Swyddogion ond fod llawer o'r gweithrediadau sydd dros ben yn weithrediadau cenedlaethol ac nid ond ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

Uwchgyfeirir meysydd i'w gwella yn awr os ydy'r heddlu'n ei chael hi'n anodd gwella. Amlygir y materion hyn bellach ar lefel Prif Swyddogion a daw hefyd i sylw'r Cydbwyllgor Archwilio.

6. **ARCHWILIO MEWNOL**

a. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Holodd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio a all y tabl sy'n dangos arddangosion a roddwyd i swyddogion gael ei ddiweddarau cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr i ddangos cynnydd.

Gweithrediad 6	Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ddiweddarau'r tabl o Eiddo a Atafaelwyd cyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cydbwyllgor Archwilio er mwyn dangos cynnydd a wnaed mewn lleihau'r nifer o eitemau a roddwyd.
-------------------	--

Gofynnwyd os methir dyddiadau cau ymateb, y rhoddir rheswm pam ac y dangosir hyn o fewn y papur hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r ffordd y cyflwynir y tabl gael ei ystyried ymhellach cyn cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau y rhoddir sicrwydd fod y prosesau'n gadarn a bod ffigyrau a adroddir yn gywir ac y rhoddir y rheswm pam y rhyddheir arddangosion.

Gweithrediad 7	Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ystyried sut y gellir dangos y tabl wrth symud ymlaen gyda gwybodaeth ychwanegol wedi'i ddangos i roi sicrwydd fod prosesau cadarn mewn lle i fonitro.
-------------------	---

b. ARCHWILIO MEWNOL SICA 2021-22 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynnyddol 2021-22.

7. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddir o fewn y papur Diweddariad Risg ar 6 Medi 2021.

Mae'r gofrestr risg Covid-19 bellach wedi'i chau ac mae dau risg wedi'u trosglwyddo i'r brif gofrestr risg ac fe'u gwelir fel busnes fel arfer.

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio am roi mwy o fanylion ar fapio sicrwydd o fewn y papur yng nghyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Gweithrediad 8	Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i roi mwy o fanylion ar fapio sicrwydd o fewn papur yn y cyfarfod nesaf.
-------------------	---

Holodd y Cadeirydd a oedd gwersi wedi cael eu dysgu o'r pandemig Covid a ellid eu rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Hysbysodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod Fframwaith Pandemig wedi'i greu ar ddiwedd y Grŵp Aur gyda gwersi a ddysgwyd wedi'u tynnu ac y gellid rhannu newidiadau i'r cynlluniau parhad busnes o ganlyniad i'r gwersi hyn gydag aelodau.

Gweithrediad 9	Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu Fframwaith Pandemig Grŵp Aur Covid-19 a newidiadau i gynlluniau parhad busnes gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.
-------------------	---

8. **RHAGLEN WAITH 2021/22**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y broses i ail-gaffael gwasanaethau archwilio mewnol a chyfranogiad y Cydbwyllgor yn y broses hon gan nad oedd dyddiad wedi'i osod ar gyfer trafodaeth o fewn y rhaglen waith.

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Cyllid i drafod y ffordd orau o gynnwys aelodau o fewn y broses gaffael. Gwnaethant awgrymu cynnal sesiwn ymroddedig ar y mater hwn tu allan i'r cyfarfod.

Gweithrediad 10	Y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Swyddog Cyllid i ystyried y ffordd orau o gynnwys Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ym mhroses gaffael Archwilio Mewnol.
--------------------	--

Awgrymodd y Cadeirydd fod angen sgwrs bellach gyda Chydbwyllgorau Archwilio Cymru gyfan i weld sut ddylent gyfrannu i'r broses gaffael Archwilio Mewnol.

Holwyd am yr Adroddiad at Wraidd y Mater ar Ddigonoldeb Adnoddau Ariannol sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2022 a'r hyn fyddai hyn yn ei olygu gan y byddai'r gyllideb eisoes wedi cael ei gosod erbyn y dyddiad hwn.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y gwnaiff baratoi papur ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Ionawr ac y gwnaiff rannu'r papur hwn gydag aelodau er gwybodaeth.

Gweithrediad 11	Y Prif Swyddog Cyllid i roi copi o'r Adroddiad Ariannol i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio sydd i'w baratoi ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr.
--------------------	--

9. **ISA 260 A LLOFNODI CYFRIFON 2020/21**

Barn Archwilio Cymru

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad a ddarparwyd gan Archwilio Cymru sy'n amlygu prif ganfyddiadau'r archwiliad a'r prosesau a ddilynwyd.

Adroddodd Archwilio Cymru fod y ddogfen hon yn amlinellu'r hyn sydd angen cael ei adrodd amdano a gwnaethant ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled a'u cydweithrediad yn y cyfnod anodd hwn.

Roedd bygythiad posibl i annibyniaeth y gwaith archwilio wedi'i nodi ond parhaodd Archwilio Cymru yn annibynnol ac ni chyfaddawdwyd gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd.

Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau gyda dim materion o bwys wedi'u nodi o ran y cyfrifon eleni.

Cwblhawyd drafftiau cyntaf y cyfrifon erbyn 1 Mehefin 2021 a chwblhaodd Archwilio Cymru eu gwaith o fewn y graddfeydd amser a gytunwyd. Mae disgwyl i Archwilio Cymru lofnodi'r cyfrifon ar 7 Hydref 2021 gyda llofnodion electronig. Unwaith y derbynnir llythyrau sylwadau, mae disgwyl i Archwilio Cymru roi barn archwilio ddiamod ar y ddau gyfrif.

Nodwyd camddatganiad heb ei addasu o fewn y cyfrif a oedd yn gyfanswm o £200k. Mae hyn wedi'i drafod gyda'r tîm cyllid a bydd yn cael ei adolygu yn ystod 2021-22 a gwneir diwygiadau lle mae'n berthnasol. Nid yw hyn yn effeithio barn yr archwiliad ond roedd angen dod â hyn i sylw'r Cydbwyllgorau.

Gofynnodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio pam nad oedd y camddatganiad wedi'i godi ynghylch darpariaethau hanesyddol. Eglurwyd nad yw Archwilio Cymru yn archwilio popeth ac y profir ond sampl ar hap.

Holwyd a oedd rhaid i brisio asedau a dyledion pensiwn gael eu gwneud yn wahanol ac os felly, sut y cyflawnwyd hyn. Eglurodd Archwilio Cymru eu bod yn asesu gallu priswyr cofrestredig a pha wybodaeth sydd wedi'i ofyn gan yr Heddlu. Eglurwyd ymhellach fod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael eu harchwilio'n annibynnol, a derbynnir sicrwydd gan yr adroddiadau hyn.

Ymateb Rheolwyr ar Eithriad

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad a gyflwynwyd a amlygodd y gweithrediadau a'r penderfyniadau a gymerwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon 2020-21.

Effeithiwyd yr amserlen a fabwysiadwyd ar gyfer 2020-21 gan y pandemig Covid mewn ffordd debyg i 2019-20. Crëwyd ac ardystiwyd y datganiadau drafft gan y swyddogion cyfrifol erbyn

diwedd mis Mai 2021. Fodd bynnag, oherwydd ymrwymadau eraill roedd Archwilio Cymru yn methu dechrau eu gwaith archwilio mewn pryd er mwyn cyrraedd y dyddiad cau sef 31 Gorffennaf 2021. Yn dilyn trafodaeth, gosodwyd amserlen ddiwygiedig gyda 6 Hydref fel y dyddiad i gymeradwyo'r cyfrifon.

Mae rheolwyr yn nodi'r camddatganiadau heb eu haddasu sy'n berthnasol i ddwy ddarpariaeth a godwyd nifer o flynyddoedd yn ôl gyda darparwyr yswiriant. Pe baent wedi'u codi heddiw, buasent wedi'u gosod i'r gronfa yswiriant wrth gefn. Bydd y materion hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o gyfrifon 2021-22 a gwneir asesiad os ydynt eu hangen cyn y gwneir y cywiriad.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio sut oedd hawl y cyhoedd i arolygu'r cyfrifon wedi'i gyflawni ac a oedd unrhyw fesurau wedi'u rhoi mewn lle. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod hysbysebion wedi'u gosod fel arfer ac y byddai'r holl wybodaeth wedi'i hanfon ymlaen at y cyhoedd yn electronig fel mewn cyfnod arferol. Felly, nid oedd angen dim newid mewn proses.

Cwestiynwyd y cywirdeb a ragwelwyd ac roedd risg ynghylch sut y rheolwyd hyn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y pandemig Covid yn un o'r rhesymau pam na fodlonwyd rhagamcanion cynllunio ac roedd yn rheswm hefyd am y tanwariant. Er mwyn rhoi arwydd cynnar, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod gwariant refeniw 2021/22 ar y trywydd iawn ond y bydd tanwariant o ran y gyllideb gyfalaf.

Argymhellion y CA ar Gymeradwyo'r Cyfrifon

Diolchodd aelodau a'r Cadeirydd i'r holl bartïon wrth gyflawni set o gyfrifon diamod.

Derbyniwyd Adroddiadau Swyddogion Cyllid y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Cynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud â datrysiad o ran datganiadau cyfrifon blynyddol a datganiadau llywodraethu blynyddol Datganiad Cyfrifon 2020-21. Yn dilyn y drafodaeth hon penderfynodd y Cydbwyllgor Archwilio'r canlynol:

- **Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu penderfynu yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.**

NODER: Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a'r holl bartïon eraill lofnodi'r cyfrifon yn electronig tu allan i'r cyfarfod hwn.

10. **DIWEDDARIAD SICRWYDD; SICRWYDD O GYFARFODYDD LEFEL UCHEL – BWRDD CYD LYWODRAETHU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gael gweld yr adroddiad Adolygiad Llywodraethu ac Effeithlonrwydd er gwybodaeth. Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg papur er gwybodaeth i aelodau.

Gweithrediad	Y Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg papur Adolygiad Llywodraethu ac
--------------	--

12. GWERTH AM ARIAN

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys y cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Cyfrifydd Rheolwyr ar y Fframwaith Gwerth am Arian. Nododd lle mae Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS yn eistedd o fewn y broses hon.

Holodd y Cadeirydd, o wybod y cyfyngiadau, pa sicrwydd a ellir ei roi y cyflawnir Gwerth am Arian ac a ydy hyn yn gysylltiedig â'r strwythur llywodraethu.

Hysbyswyd y defnyddir gwerth am arian fel tystiolaeth i gynorthwyo gwaith parhaus/arfaethedig. Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio i hyn gael ei ystyried ymhellach yn y sesiwn At Wraidd y Mater Cyllid a drefnwyd fel rhan o'r rhaglen waith.

Roedd trafodaeth ynghylch yr angen i sicrhau fod effaith yr amrywiadau mewn poblogaeth a welir yng Ngogledd Cymru yn cael ei fesur hefyd. Mae hyn er mwyn sicrhau fod y graffiau a grëwyd yn amlygu'r amrywiaeth mawr mewn poblogaeth a brofwyd yn ystod misoedd yr haf a all newid y ffigyrau a grëwyd.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod Gwerth Cymdeithasol yn ystyriaeth allweddol a'i fod yn bwysig i'r Comisiynydd presennol ag yr oedd i'r Comisiynwyr blaenorol. Mae'n bwysig y dylai sefydliad mor fawr â'r Heddlu gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol.

13. TROSOLWG O'R CYDWEITHREDIAD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r cyflwyniad gan y Pennaeth Newid a Chydweithrediad Strategol a roddodd ddiweddariad ar y gwaith cydweithredol a ymgwymerwyd o fewn yr Heddlu a'r prosiectau ynghlwm.

Gofynnodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am adroddiad i wraidd y mater o ran y gwaith cydweithredol sy'n cael ei ymgymryd. Mae hyn er mwyn deall yn well sut yr ymgwymerir â'r gwaith hwn a sut y dewisir partneriaid/prosiectau.

Gweithrediad 13	Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys Adroddiad at Wraidd y Mater Cydweithrediad o fewn y Rhaglen Waith.
--------------------	--

14. UNRHYW FATER ARALL

Nid chodwyd mater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 8 Rhagfyr 2021 am 9.30yb naill ai yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn neu ar Microsoft Teams.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 06.10.2021

	Agored
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
	56a	Moeseg Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Wedi gohirio	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	<p>Y Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n datgan bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd ac yn argymhell na ddylai CHTh beidio â bod yn rhan o'r mater ar y foment.</p> <p>09/03/2020 – fel mater cenedlaethol, gall cynnwys y CHTh atal cynnydd. Gohirio hyd nes y bydd y darlun cenedlaethol yn gliriach.</p> <p>02/06/20 – Wedi gohirio. Yn disgwyl cynnydd cenedlaethol.</p> <p>19/10/2020 – Cadarnhau na dderbyniwyd diweddariad pellach.</p> <p>30/03/2021 – Cadeirydd newydd yn y swydd ac mae'r trosglwyddiad yn bwrw ymlaen. Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio i sicrhau bod y mater yn cael ei gynnwys o fewn y trosglwyddiad.</p> <p>04/08/2021 – Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi ymchwilio'r mater a godwyd ymhellach a gwnaiff drafod gyda'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg i gytuno ar ffordd ymlaen.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>05/10/2021 – Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau gyfarfod â Jacquie Don, Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yr wythnos ddiwethaf i drafod dau fater ar wahân sydd o bosib yn berthnasol i'r hen weithredid CA. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yn bwriadu trafod y materion hyn yn y bwrdd ym mis Hydref os yn bosibl. Unwaith y trafodir, bydd y pwyllgor yn rhoi adborth ar gamau nesaf bosibl a ellir eu bwydo i'r CA er mwyn rhyddhau'r gweithrediad.</p> <p>17/11/21 – Gwnaeth y Pwyllgor Moeseg gyfarfod ar 26 Hydref a thrafodwyd materion perthnasol (mae crynodeb wedi'i anfon ar wahân gan y Cadeirydd Jacquie Don). O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Moeseg wedi gofyn am wybodaeth bellach i'w adolygu mewn bwrdd yn y dyfodol. Faes o law, bwydir yr allbwn o'r Pwyllgor Moeseg i fforwm a gadeirir gan y Prif Gwnstabl.</p> <p>Awgrymu y caeir y gweithrediad yn y bwrdd hwn.</p>
	152	Adolygiad Blynyddol / Adroddiad Blynyddol y CA (drafft) – Aelodau a Swyddogion i roi unrhyw adborth i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Cyn Gynted â Phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>20/06/21 – Cyflwynodd y CCA adborth ar gyfer y ddau adroddiad.</p> <p>04/08/2021 – Gan nad oes cynllun gweithredu ynghylch gwerthusiad y CA – mae'r gweithrediad i barhau ar agor.</p> <p>06/10/2021 – Mae'r CCA wedi creu cynllun gweithredu drafft a gaiff ei gylchredeg i'r PSC a CX am sylwadau.</p> <p>18/11/21 – Mae'r cynllun gweithredu drafft wedi'i anfon at y PSC a'r PW a bydd yn cael ei anfon ymlaen at Gadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio sef Rachel Barber.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
04/08/21	7	Diweddariad Risg – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i baratoi papur briffio ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar risgiau'r prosiect.	Cyn Gynted â Phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	29/09/21 – Yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf gan Aelod o'r CA sef Sarah Davies i drafod ein prosesau rheoli risg tu allan i brif gyfarfod y CA, ac yn benodol sut y datblygir risgiau prosiect ar gyfer eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu, gallaf gadarnhau y cynhaliwyd cyfarfod ar-lein yn ddiweddar gyda'r Arweinydd Parhad Risg a Busnes, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes ac Aelod o'r CA Sarah Davies.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>06/10/2021 – Arweinydd Llywodraethu'r CA i gyfarfod all-lein gyda'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i drafod risgiau prosiect ac unrhyw faterion eraill wrth iddynt godi ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>05.11.2021 – Caed cyfarfod gydag aelod o'r CA. Rhoddodd swyddogion gyflwyniad ar reoli Risgiau Prosiect, sut y cânt eu dwysáu i Gofrestr Risg yr Heddlu, eu cofnodi a'u datblygu ar Lefel Swyddfa Rheoli Portffolio a'u rheoli'n strategol ar Gofrestr Risg yr Heddlu. Gofynnodd yr Aelod o'r CA rai cwestiynau ardderchog yr oedd y rhai a oedd yn bresennol yn gallu eu hateb. Canfu pob parti fod yr aelod o'r CA yn gefnogol iawn i'r gwaith sydd ar y gweill a hoffent ddiolch iddi am yr amser a roddodd i fynychu'r cyfarfod.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
06/10/2021	1	Pwyntiau Gweithredu – Cynorthwydd Personol i ddiweddarau'r tabl i ddangos dyddiadau a'r unigolyn sy'n gyfrifol am weithrediadau ac egluro'r gweithrediad/disgrifiad.	01/12/2021	Cynorthwydd Personol	Cofnod Gweithrediadau wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	2	Diweddariad Sefydliadol – Y Prif Weithredwr i anfon y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio unwaith caiff ei gyhoeddi.	01/12/2021	Prif Weithredwr	13/10/2021 – Rhannwyd dogfen gydag aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	3	Diweddariad Sefydliadol – Prif Weithredwr i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar y Strategaeth Gyfathrebu wrth fynd ymlaen.	01/12/2021	Prif Weithredwr	Yn dilyn adolygiad mewnol, penderfynwyd dod â'n cytundeb i ben gydag ymgynghoriaeth Cysylltiadau Cyhoeddus/Cyfyngau allanol. Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio am Bennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a fydd yn cael yr orchwyl o adolygu ein strategaeth gyfathrebu bresennol.
06/10/2021	4	Diweddariad Sefydliadol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drefnu cyfarfodydd all-lein i drafod y Rhaglen Alluogi Genedlaethol gydag Arweinydd TG y CA.	08/12/2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/21 – Ond mae'r ddwy sesiwn friffio wedi digwydd gyda Julie Perkins ac mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 19/11/21 gyda Julie Perkins, Andy Lohman a Kerrie Ambrose. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
06/10/2021	5	Diweddariad Sefydliadol – Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol ynghylch effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraeth i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.	08/12/2021	Prif Swyddog Cyllid	12/11/21 – rhannwyd papur gydag Aelodau'r Cydbwyllgor. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	6	Archwilio Mewnol – Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ddiweddarau'r tabl o Eiddo a Atafaelwyd cyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cydbwyllgor Archwilio er mwyn dangos cynnydd a wnaed mewn lleihau'r nifer o eitemau a roddwyd.	08/12/2021	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	03/11/2021 – Mae'r Swyddog Cyllid a Chyllideb wedi diweddarau'r tabl yn adroddiad presennol y CA (Rhagfyr) gydag eitemau Medi a Hydref 2021; nid oedd adroddiad blaenorol yn dangos eitemau mis Medi oherwydd bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w gyfieithu cyn 30/09/2021. Mae'r Rheolwr Eiddo Wedi'i Atafaelu yn cyflwyno adroddiad KPI misol i'w Rheolwr Llinell ar y cyntaf o'r mis. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	7	Archwilio Mewnol – Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i ystyried sut y gellir dangos y tabl wrth symud ymlaen gyda gwybodaeth ychwanegol wedi'i ddangos i roi sicrwydd fod prosesau cadarn mewn lle i fonitro.	08/12/2021	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	03/11/2021 – Mae Swyddog Cyllid a Chyllidebau wedi rhoi dadansoddiad o'r eitemau a roddwyd i swyddogion ac mae dadansoddiad o chwistrell daliwr a roddwyd i swyddogion – adran 5, tudalen 4 o adroddiad y CA mis Rhagfyr. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	8	Diweddariad Risg – Y Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes i roi mwy o fanylion ar fapio sicrwydd o fewn papur yn y cyfarfod nesaf.	08/12/2021	Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes	21/10/2021 – Bydd Mapio Sicrwydd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Risg y Sesiwn Agored wedi'i lunio gan Arweinydd Risg a Pharhad Busnes y CA 08/12/21. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	9	Diweddariad Risg – Y Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes i rannu Fframwaith Pandemig Grwp Aur Covid-19 a newidiadau i gynlluniau parhad busnes gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.	01/12/2021	Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes	21/10/2021 Rhannwyd Fframwaith Pandemig HGC gydag aelodau o'r CA. O ran Parhad Busnes, mae'r Bwrdd Sicrwydd wedi cytuno ar amserlen gynhwysfawr o brofi ac ymarfer a gaiff ei chadw o dan adolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gymesur i anghenion yr heddlu.
06/10/2021	10	Rhaglen Waith 2021/22 – Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Swyddog Cyllid i ystyried y ffordd orau o gynnwys Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ym mhroses gaffael Archwilio Mewnol.	01/12/2021	Prif Swyddog Cyllid	12/11/21 Mae'r PSC wedi cysylltu â chymheiriaid ledled Cymru ac mae'n cysylltu gyda chadeirydd y CA i hwyluso hyn. 18/11/21 – Trafododd y PSC gyfranogiad y CA. Enwebwyd dau o'r CA i oruchwylio'r broses o archwiliadau mewnol. Bydd aelodau'r CA yn un sgoriwr yn y gwerthusiad yn y pen draw. Y broses gaffael i symud ymlaen.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	11	Rhaglen Waith 2021/22 – Prif Swyddog Cyllid i roi copi o'r Adroddiad Ariannol i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio sydd i'w baratoi ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr.	29/1/2022	Prif Swyddog Cyllid	12/11/21 Paratoir y papur hwn ganol mis Ionawr.
06/10/2021	12	Diweddariad Sicrwydd; Sicrwydd o Gyfarfodydd Lefel Uchel – Bwrdd Cyd Lywodraethu – Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg papur Adolygiad Llywodraethu ac Effeithlonrwydd i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth.	01/12/2021	Prif Swyddog Cyllid	12/11/21 – mae'r papur wedi'i rannu gydag Aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
06/10/2021	13	Adolygiad Cydweithrediad – Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys Adroddiad at Wraidd y Mater Cydweithrediad o fewn y Rhaglen Waith.	01/12/2021	Prif Swyddog Cyllid	12/11/21 – Mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y Rhaglen Waith. Awgrymu cau'r gweithrediad.

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf – archifwyd ym mis Mawrth 2021 – ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
	91b	Archwilio Mewnol – Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>02/06/2020 Nid oes rhwymedigaeth i greu Datganiad Rheolwyr yr Heddlu yn ystod 2020/21. Edrychir ar y ddogfen fodd bynnag a bydd yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021.</p> <p>30/07/2020 CFO i ddiweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu newid rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.</p> <p>12/02/21 – Camau a ail-agorwyd i fonitro cynnydd.</p> <p>12.02.21 – Mae amserlenni'n golygu y bydd y FMS drafft yn cael ei gwblhau ar ôl y cyfarfod ym mis Mawrth. Y wybodaeth ddiweddaraf i'w rhoi i'r FMS i'w gynnwys yn y sesiynau cynefino Aelodau Newydd i Aelodau'r Pwyllgor, Agenda CA mis Gorffennaf neu'r ddau. Pennaeth yr Uned Cynllunio Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd cyn y cyfarfod ym mis Mawrth.</p> <p>01.03.2021 – Fel rhan o'r broses gynllunio a arweiniodd at bennu cyllidebau, cwblhaodd pob ardal yn yr heddlu Gynllun Busnes yn nodi eu dealltwriaeth o'r galw, y capasiti a'r gallu presennol ac yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y cynlluniau hyn ynghyd â chanlyniadau'r penderfyniadau a wneir wrth bennu'r gyllideb yn ffurfio ein cyflwyniad FMS eleni. Yn ogystal, mae dadansoddiad bwlch wedi'i wneud i'n galluogi i olrhain effaith ein penderfyniadau adnoddau. Mae rhagolygon ystadegol o dueddiadau galw allweddol wedi'u cwblhau i lywio cynllunio sefydliadol.</p> <p>Mae bron pob adran yn nodi tuedd gynyddol o alw ac er bod agweddau wedi'u hatal gan COVID mae eraill wedi cyflymu y tu hwnt i'n rhagamcanion gwreiddiol.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau dadansoddiad manylach ar effaith y pandemig ar alw'r heddlu a fydd yn rhan o'r ddogfen derfynol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i HMCIFRS yw 31 Mai 2021.</p> <p>30/03/2021 – Gwaith yn parhau i gael ei ddatblygu a'r Cydbwyllgor Archwilio i weld Datganiad Rheoli'r Heddlu pan fydd wedi'i gwblhau.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>21/05/21 – I'w ddsbarthu cyn ac ar wahân i bapurau cyfarfod.</p> <p>23/06/21 – Mae'r FMS yn ddogfen 'Sensitif Swyddogol' gyda'r rhan fwyaf o'r cynnwys hwnnw wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Busnes. Y cynnig yw dosbarthu'r Crynodeb Gweithredol i aelodau'r CA, rhoi trosolwg yng nghyfarfod y CA ym mis Awst gyda'r bwriad o ddarparu sesiynau briffio mwy penodol wedi'u targedu yn ôl y gofyn.</p> <p>04/08/2021 – Cadarnhaodd swyddogion fod y ddogfen hon wedi bod â'r marc 'Swyddogol Sensitif' bob amser.</p> <p>Awgrymodd aelodau o'r CA gau'r gweithrediad.</p>
	102b	Trosolwg Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ymateb i'r CA yn ymwneud â'r rheswm dros ddiwygiadau dyddiad dyledus a sut y byddai mater RhDDC sy'n ymwneud â data sensitif a gedwir ar yriannau Rhwydwaith yn cael sylw drwy NEP a mudo i amgylchedd Cwmwl.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>17/09/20</p> <p>E-bostiwyd Arweinydd Risg CA gan y CCA 31/07/20 gyda rhesymau dros y diwygiadau dyddiad dyledus wedi'u hamlygu. Pwysleisiwyd bod yr angen i sicrhau bod dyddiadau priodol ar argymhellion TIAA yn rhesymol ac yn realistig cyn cytuno wedi'i bwysleisio i'r rhai sy'n cynnal archwiliadau gan y DFA a'r Pennaeth Cyllid.</p> <p>E-bostiodd CCA Arweinydd Risg CA ar 31/07/20 parth. RhDDC: "Er mwyn lliniaru'r mater RhDDC y cyfeirir ato yn y pen draw, byddai angen i unrhyw ateb sicrhau mai dim ond data sy'n cydymffurfio â RhDDC sy'n cael ei fudo i'r Cwmwl (Ile mae angen ei reoli wedyn mewn ffordd strwythuredig) a hefyd bod angen rheoli unrhyw ddata nad yw'n mudo yn briodol...</p> <p><i>Mae darparu adnoddau ar gyfer y ffrwd waith naill ai drwy dîm prosiect y NEP neu drwy ffrwd waith ar wahân yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag achos busnes ar y gweill."</i></p> <p>05.10.2020 – Holodd aelod o'r CA sut fyddai symud data sydd ddim yn cydymffurfio i'r cwmwl o gymorth wrth liniaru risg ac yn gadael yr Heddlu gyda data sydd ddim yn cydymffurfio ar</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>y gyriant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod data cydymffurfiaeth yn cael ei fudo i'r Cwmwl ond ei fod hefyd yn edrych ar faterion gwaddol er mwyn edrych ar y mater ymhellach. Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i edrych i'r mater ymhellach a diweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>20/11/2020 – Diweddariad pellach ynghylch dull a anfonwyd drwy'r e-bost gan CCA at arweinydd Risg CA.</p> <p>10.12.2020 – e-bost wedi'i anfon at ARWEINYDD Risg CA ar liniaru risg. Aelod/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gytuno pa sicrwydd fydd yn cau'r cam gweithredu hwn.</p> <p>09/02/2021 Trafododd CCA ac arweinydd risg CA e-bost dyddiedig 10/12/20 am gyfnod. Cynlluniau Rhaglen Galluogi Cenedlaethol (NEP) ar gyfer mudo data i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol sydd ei angen i gau camau gweithredu.</p> <p>30/03/2021 – Datblygwyd cynlluniau i ymestyn yr NEP. Y cam nesaf yw anfon Data Mudo at y Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth.</p> <p>21/05/21 – Dylid dosbarthu'r briffi i John Cunliffe a'i gopïo i'r Cadeirydd.</p> <p>NEP i'w gynnwys yn y rhaglen Waith.</p> <p>23/06/21 – Anfonwyd e-bost briffio ynghyd â dogfennau sylfaenol. NEP i'w gynnwys fel rhan o bwynt at Wraidd y Mater ar Agenda CA mis Awst</p> <p>Mae Aelodau'r CA yn awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
	105a	Bwrdd Sicrwydd – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ddod â rhestr o brofion Top Bwrdd i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>Rydym yn cydnabod bod hon yn agwedd bwysig ar ein gwaith sicrwydd, a byddwn yn ceisio canolbwyntio arno mewn ystyr ystyrllon unwaith y bydd gallu i wneud hynny ar ôl ymdrin â materion pwysig BC o ddysgu'r gwersi o COVID. Mae prosesau ar waith gyda pharhad busnes un pwynt cyswllt ar gyfer ymarferion pen bwrdd parhaus, ac ymarfer blynyddol ar lefel yr Heddlu gyfan, ond nid oes amserlen ffurfiol/fanwl ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd amserlen brofi lawn yn rhan o'n hymateb ond mae angen i ni roi ystyriaeth briodol iddi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gydbwyllgor Archwilio. Byddaf yn anelu at gael</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>y wybodaeth ddiweddaraf lawnach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yn manylu ar y rhestrau profi cyfredol ac arfaethedig.</p> <p>05.10.2020 – Blwyddyn ddigynsail ac mae llawer wedi'u profi mewn amser real. Adolygiad arall ddechrau'r flwyddyn nesaf. Diweddariad llawnach i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2020.</p> <p>12/11/20 Mae dau brawf parhad busnes wedi'u trefnu ers cyfarfod diwethaf y CA.</p> <ul style="list-style-type: none"> • 10/11/20 Ymarfer Seiber Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru – wedi'i ohirio oherwydd anawsterau technegol, i'w aildrefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr 2020 • 17/12/20 – Ymarfer parhad Busnes Ymadael â'r UE. Fersiwn wedi'i diweddarau o ymarfer Ymadael â'r UE a gynhaliwyd yn flaenorol ar 09/10/20 • Mae papur opsiynau parhad busnes wedi'i baratoi ar gyfer grŵp tactegol Adfer Covid 19 13/10/20 er mwyn ystyried ymestyn cynlluniau parhad busnes pwrpasol i bob maes gan gynnwys meysydd risg isel. Bydd hyn yn hysbysu graddfa'r gwaith parhad busnes i'w ymgymryd. Bydd hefyd yn hysbysu'r amserlen profi ar gyfer 2021 a fydd yn cael ei chreu fel rhan o'r gwaith. <p>Yng ngoleuni problemau gallu o fewn y tîm sicrwydd, cytunwyd ar aelod o staff dros dro a fydd ar gael o'r Adran Cynllunio Gweithredol i gynorthwyo dros dro gyda'r gwaith parhad busnes.</p> <p>11.01.2020 – Cadeirydd ac Uwcharolygydd/Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gweithredu.</p> <p>03.03.2021 Gweler y papur amgaeedig (Atodiad A).</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
	139a	Rhaglen Waith - Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y	Cyn Gynted â Phosibl	Prif Swyddog Cyllid	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Prif Swyddog Cyllid wedi trafod ac mae PA wedi gofyn i CCA drefnu gweithdy ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Pennaeth Cudd-

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		gellid ymgorffori risgiau statig yn well i agenda'r cyfarfod.			wybodaeth Busnes/Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gydag Arweinydd Risg CA a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r rhaglen. Angen trafodaeth bellach gan efallai mai aelod newydd o'r CA fydd yr Arweinydd Risg. 03.03.2021 – Y Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y gellid ymgorffori risgiau statig yn well yn agenda'r cyfarfod. – Yn dilyn trafodaeth gyda John Cunliffe, cytunwyd y byddai'r Heddlu, ochr yn ochr ag Adolygiad Blynnyddol Awch Risg, hefyd yn cynnal adolygiad blynnyddol o'r Gofrestr Risg yn ogystal â'r risgiau a gaewyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Digwyddodd hyn yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 23 Chwefror 2021, a rhoddwyd ystyriaeth i risgiau y gallai fod angen eu hadolygu'n barhaus er iddynt gael eu cau. Mae llwybr hefyd i oruchwyllo risgiau statig drwy'r broses mapio risg. Byddai'r ddau hyn yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Cydbwyllgor Archwilio drwy'r adroddiad risg rheolaidd pan fo'n berthnasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i risgiau statig/hirdymor. 21/05/21 – Bydd swyddogion yn cael diweddariadau rheolaidd gydag Arweinydd y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
30/03/2021	144	Diweddariad Sefydliadol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i baratoi nodyn strategol lefel uchel ar ganlyniad y diwrnod gweledigaeth a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021.	Cyn Gynted â Phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Bydd Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn cylchredeg i bawb. 24/06/21 – Dosbarthwyd dogfen diwrnod creu gweledigaeth i aelodau'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	145a	Diweddariad AHEM Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro i sicrhau bod rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn y papur diweddarau ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2021.	Gorffennaf 2021	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Ystyried hyn wrth baratoi ar gyfer y papur ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146a	Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i sicrhau bod	Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Pan roddir sicrwydd cyfyngedig yn yr adroddiad archwilio, mae'r rheolwr perthnasol i fynychu Cyd-bwyllgor Archwilio.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		perchnogaeth o gamau gweithredu sy'n weddill yn cael ei hadlewyrchu mewn papurau yn y dyfodol.			23/06/21 – Monitro'r CCA a'r Gyllideb i adlewyrchu yn adroddiad Archwilio Mewnol 21Awst. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146b	Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod y terfynau amser a gollwyd ar gyfer ymatebion gan reolwyr ar argymhellion sy'n weddill gyda'r tîm.	Cyn Gynted â Phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Pan roddir sicrwydd cyfyngedig yn yr adroddiad archwilio, mae'r rheolwr perthnasol i fynychu Cyd-bwyllgor Archwilio. 23/06/21 – Monitro'r CCA a'r Gyllideb i adlewyrchu yn adroddiad Archwilio Mewnol 21Awst. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	146c	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol.	Gorffennaf 2021	Archwilio Mewnol	Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein hadroddiadau yn rhoi trosolwg cytbwys o'r gwaith a gwblhawyd a chyflawniadau tra'n glynu wrth arfer gorau a safonau perthnasol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	147	Diweddariad Risg – Pennaeth Gwybodaeth Busnes i roi amserlenni i'r Cydbwyllgor Archwilio o ran pryd y bydd papurau yn y dyfodol sy'n dangos dull mwy seiliedig ar risg o fapio sicrwydd yn cael eu dwyn yn ôl i'r cyfarfod i'w hystyried.	Gorffennaf 2021	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Pennaeth Gwybodaeth Busnes i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y papur nesaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	148a	Rhaglen Waith – Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Cyllid/Adnoddau i ddiweddarau'r rhaglen waith cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021.	Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	Rhaglen Waith wedi'i diweddarau. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	148b	Rhaglen Waith – Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Cyllid/Adnoddau i ystyried y ffordd orau o gynnwys y NEP a'r gwaith trawsnewid Digidol o fewn rhaglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	21/05/21 Ymateb cychwynnol fu i gynnwys yr NEP fel rhan o ymchwiliad at wraidd y mater ar gyfer CA Gorffennaf 21. 24/06/21 Cynnig byddai rhoi trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Ddigidol fel rhan o'r archwiliad risg at wraidd y mater yn y dyfodol gyda'r bwriad o roi sicrwydd ynghylch yr elfennau a archwiliwyd hyd yma a'r llywodraethu sy'n gysylltiedig â gweddill elfennau'r rhaglen. 04/08/2021 – Diweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu Trawsnewidiad Digidol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	149a	Strategaeth Gyfalaf – Pennaeth Cyllid i roi mwy o eglurder ar ffigurau o fewn y ddogfen a'u dosbarthu i	Cyn Gynted â Phosibl	Pennaeth Cyllid	05/07/21 Dealltwriaeth y Pennaeth Cyllid o'r cwestiwn yn y cyfarfod oedd ei fod yn ymwneud ag achosion y llithriadau yn y Rhaglen Gyfalaf a oedd yn bwydo i mewn i'r Rhaglen yn y


DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth.			dyfodol. Eir i'r afael â'r rhain fel rhan o'r adroddiadau diwedd blwyddyn a'u trafod yn fanwl yng Nghyfarfod Technegol y Cyfrifon ar 25 Mehefin. Awgrymu cau'r gweithrediad. (Os nad yw'r cwestiwn wedi'i ateb, gofynnwyd i weithred newydd gael ei chodi gydag eglurder ar y cwestiwn).
	149b	Strategaeth Gyfalaf – Prif Swyddog Cyllid i roi'r Rhaglen Gyfalaf ar y rhaglen waith i'w thrafod ymhellach.	Gorffennaf 2021	Prif Swyddog Cyllid	Ar agenda Gorffennaf fel archwiliad at wraidd y mater Awgrymu cau'r gweithrediad.
	149c	Strategaeth Gyfalaf – Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Cyllid/Adnoddau i sicrhau bod Strategaeth Rheoli a Chyfalaf y Trysorlys yn cael ei chynnwys yn y diwrnod datblygu Archwilio ar y Cyd.	Mehefin 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	Ar ddiwrnod datblygu'r agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	150	Cod Rheolaeth Ariannol – Pennaeth Cyllid i ddiweddarau unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.	Hydref 2021	Pennaeth Cyllid	Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu penodol yn adroddiad Cydymffurfio Cod FM, ond tynnwyd sylw at 4 maes i'w datblygu. Mae'r rhain ar y cyfan yn feysydd i'w datblygu'n barhaus ac fe'u rheolir o dan Fyrddau neu Reolwyr eraill. Y 4 maes dan sylw yw Adolygiad o'r Cylch Cynllunio – wedi'i gyflawni a dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y 6 mis nesaf. Cydweithio Rhanbarthol a Chenedlaethol – mae costau'n parhau i gael eu herio a'u deall, ond mae'n dal i fod yn faes sy'n peri pryder fel pwysau cyllidebol. Datblygu BC ac ymgysylltu'n gynnar â Chaffael – mae hyn wedi gwella a chaiff ei wella ymhellach drwy benodi Swyddog Gwireddu Manteision Busnes yn y PMO. Data meincnodi – Ymgysylltu'n Rhanbarthol ac yn Genedlaethol i ddylanwadu ar gasglu data er mwyn ceisio cael data BM ystyrlon. Awgrymu bod camau'n cael eu cau a bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi fel rhan o adroddiadau Cod FM.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Nid oes dyddiad gorffen penodol i'r rhain gan eu bod yn feysydd o welliant/datblygiad parhaus. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	154	Datganiad Cyfrifon Blynyddol – Rhagolwg Sleidiau a gyflwynir gan y Pennaeth Cyllid i'w dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Sleidiau a gylchredwyd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	145b	Diweddariad AHEM – Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith i gynnwys adroddiad Gwerth am Arian ACGTAEM yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Gorffennaf 2021	Prif Swyddog Cyllid	Gohiriwyd tan Cyfarfod CA mis Hydref. 14/09/21 - Ar yr agenda ar gyfer mis Hyd 21 Awgrymu cau'r gweithrediad..
04/08/21	1	Diweddariad Sefydliad – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gynnwys diweddariad ar y rhaglen newid o fewn y papur Diweddariad Sefydliadol i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	14/09/21 – CCA i adlewyrchu'r diweddariad cryno yn yr adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Hydref. 06/10/2021 Rhannwyd Adroddiad Diweddariad gydag aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
04/08/21	2	Archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig – Rheolwyr Iechyd a Diogelwch – Cyfarfod i'w drefnu rhwng y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyfleusterau ynghylch sut gall SCHTh graffu'r gwaith Iechyd a Diogelwch sy'n cael ei ymgymryd o fewn Heddlu Gogledd Cymru.	Cyn Gynted â Phosibl	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyfleusterau	14/09/21 – Cyfarfod rhwng partion wedi'i drefnu er mwyn trafod rôl SCHTh. 28/09/2021 – <ul style="list-style-type: none"> Mae'r PSC yn mynychu'r Bwrdd I&D chwarterol, gan dderbyn gwahoddiad rheolaidd ac yn diweddarau'r PW a SCHTh yn ôl yr angen. Diwygir y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r ychwanegiad hwn. Angen trefnu sesiwn frifio Iechyd a Diogelwch ar gyfer y PG a'r CHTh. Awgrymu cau'r gweithrediad.
04/08/21	3	Archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig – Rheolwyr Iechyd a Diogelwch – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod cynnwys Iechyd a Diogelwch ar raglen waith Archwilio Mewnol a'i gynnwys ar agenda'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	14/09/21 – Wedi amlinellu ymateb gweithrediad / wedi'i gynnwys yn adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer bwrdd Hyd 21. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
Sefydlu amcanion sy'n pennu polisi a gwneud penderfyniadau	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol?
Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianeli cyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol am wasanaethau yn cael eu hystyried?
Monitro ac adolygu perfformiad	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen ac adrodd i'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Cydymffurfio â pholisïau sefydledig	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
Risgiau gweithredol ac ariannol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes sylweddol?
Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni wrth ddefnyddio adnoddau?

Trefniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol corfforaethol	Cwestiynau ynglŷn â threfniadau
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'w adnoddau sydd ar gael?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, cymryd camau unioni lle y bo'n briodol, ac adrodd ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl?</p>
<p>Safonau ymddygiad priodol ac ati.</p>	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer gweithredu?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes?</p>

<p>A yw archwilwyr wedi nodi unrhyw arwyddion nad yw trefniadau priodol ar waith o adolygiad o'r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?</p>	<p>Canfyddiadau a chasgliad</p> <p>Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion nad oes trefniadau priodol ar waith.</p>
<p>Archwilio cyfrifon</p>	<p>Cyflwyno barn ddiamod ar 7 Hydref 2021.</p>
<p>Adroddiadau Archwilio Cymru Lleol a chenedlaethol</p>	<p>Adolygiad o gydweithio gwasanaethau brys yng Nghymru.</p> <p>Adolygiad o'r cydweithio rhwng pedwar llu Cymru. Rhannwyd canfyddiadau'r archwiliad gyda heddluoedd Cymru yn haf 2020. Rydym wedi dod i'r casgliad bod trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau ar gyfer y cydweithio rhwng Heddluoedd Cymru, ond mae agweddau ar y trefniadau hyn a allai elwa o egluro a ffurfioli nifer o brosesau.</p>
<p>Adroddiadau archwilio mewnol</p>	<p>Yn ystod 2020/21, cynhaliodd yr archwilwyr mewnol, TIAA, 22 o archwiliadau yr aseswyd bod 13 ohonynt yn rhoi sicrwydd sylweddol, chwech gyda sicrwydd rhesymol ac un adroddiad lle'r oedd yr asesiad yn gyfyngedig o sicrwydd.</p> <p>Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd: Yn fy marn i, mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni eu hamcanion ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.</p>
<p>Adroddiadau arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)</p>	<p>Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd unrhyw adroddiadau Arolygu HMICFRS wedi'u cyhoeddi yn ymwneud â'r cyfnod dan sylw.</p>
<p>Adolygu papurau allweddol e.e. strategaethau, cynlluniau, papurau cyfarfod, ac ati</p>	<p>Cynhelir adolygiad o'r papurau allweddol fel rhan o'n proses archwilio. Rydym yn ystyried a yw'r Datganiadau Ariannol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn</p>

<p>A yw archwilwyr wedi nodi unrhyw arwyddion nad yw trefniadau priodol ar waith o adolygiad o'r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?</p>	<p>Canfyddiadau a chasgliad</p> <p>Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion nad oes trefniadau priodol ar waith.</p>
	<p>gyson â'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu o'r ffynonellau hyn.</p>
<p>Adrodd ar y gyllideb</p>	<p>Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 i 2025-26 yn amlinellu gofynion y gyllideb a disgwyliadau gwariant. Mae'r strategaeth hon (4 blynedd ymlaen) yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod diffygion ariannol sydd ar ddod yn cael eu nodi'n gynnar a chatau unioni a gymerwyd gan sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i wariant cynlluniedig.</p>

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith drwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Y Senedd sy'n dwyn Swyddfa Archwilio Cymru i gyfrif.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaid â'r gofynion sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Dyddiad 8 Rhagfyr 2021

EITEMAU ER GWYBODAETH

1. **SELIO DOGFENNAU**

Mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu selio ers y rhai hynny a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf dyddiedig 31 Mawrth 2021

Rhif Sêl

Natur y Ddogfen

246 + 247	Prydles Gorsaf Radio Llanddona (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ddyblyg
248 + 249	Cytundeb y Tribiwnlys Contractau ar y Cyd (JCT) yn ddyblyg (1) CHTh Gogledd Cymru (2) R.L Davies & Son Ltd parth: adeilad newydd Cyfleuster Hyfforddiant ym Maes Tanio Rhewl
250	Trosglwyddo rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Wendy Whittle parth: hen orsaf heddlu Benllech
251-274	Cynlluniau – Prydles safle Gorsaf Radio Llanddona ar gyfer gosod offer telegyfathrebu (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Ysgrifennydd Gwladol Tai a Llywodraeth Leol

2. **TRAFODION EIDDO**

Ers y rhai a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf ar 31 Mawrth 2021 mae dau bryniant eiddo wedi bod

Prydles safle yng Ngorsaf Radio Llanddona rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer gosod offer telegyfathrebu dyddiedig 20 Awst 2021

Prydles lle swyddfa ym Mhrifysgol Cranfield, Swydd Bedford (a gafwyd gan y CHTh ar ran FCIN) rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Prifysgol Cranfield dyddiedig 20 Medi 2021.

3. DOGFENNAU TENDRO

Mae'r Tendrau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTH neu Prif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

<u>Rhif</u>	<u>Pwnc</u>	<u>Sawl sy'n Tendro</u>
151	Gwasanaethau Oedolion Priodol	(1) The Appropriate Adult Service Ltd
152	Gosod Cyflenwad Cypyrddau Clo	(1) Garran Lockers Ltd (2) Genesys Office Furniture (3) H Jenkinson & Co Limited (4) Viral Touch
153	Arfwisg Cudd	(1) Dim ymatebion
154	Gwasanaeth Rheoledig Casglu Cerbydau	(1) Automobile Association Developments Ltd (2) FMG Support Group Ltd (3) GRG Public Resources Ltd
155	Helmedau Uned Cymorth yr Heddlu (PSU)	(1) Deenside Ltd
156	Gwasanaeth Amnewid a Chynnal a Chadw CCC	(1) ADT Fire & Security (2) AjarTec Ltd (Ajar Technology) (3) Gwasanaethau Atal Trosedd (4) MSI Alarms Ltd (5) Northwest Security Services Ltd (6) Openview Security Solutions Ltd (7) Snowdonia Fire Protection Ltd
157	Gwasanaeth Amnewid CCC a Chynnal a Chadw	(1) ADT Fire & Security (2) AjarTec Ltd (Ajar Technology)

(3) Gwasanaethau Atal Trosedd

**158 Cais Plismona Symudol
44016**

- 1 Airpoint International Ltd**
- 2 Black Marble Ltd**
- 3 CGI IT UK Ltd**
- 4 Coeus Software Ltd t/a PoliceBox**
- 5 HCL Technologies UK Ltd**
- 6 Insight Direct (UK) Ltd**
- 7 MiG Security and Events Ltd**
- 8 Motorola Solutions Ltd**
- 9 Triple Ps Ltd**
- 10 Xenium Solutions Ltd**

**159 Cynnal a Chadw Adweithiol ac Arfaethedig
Gwaith Adeiladu**

- 1 Bodacc Ltd**
- 2 Gwilym Parry & Son Ltd**
- 3 R Roberts & Son**
- 4 W R Peters Ltd**

**160 Cynnal a Chadw Adweithiol ac Arfaethedig
Gwaith Trydanol**

- 1 Bebbington & Wilson Ltd**
- 2 Fred Western Electrical Contractors Ltd**
- 3 Lloyd Morris Electrical Ltd**
- 4 Owen & Palmer Ltd**

161 Ymestyn maes parcio ac adeilad VCC

- 1 Brenig Construction**
- 2 Elate Construction Ltd**
- 3 Housing Maintenance Solutions**
- 4 ParkCity Multitrade Ltd**
- 5 R L Davies & Son Ltd**

**162 Tendrau cyn cymhwyso TGCh
Gwasanaethau Gweithle a Reolir**

- 1 ATOS IT Services UK Ltd**
- 2 BT Plc**
- 3 Capita Business Solutions**
- 4 CDW Ltd**

		3	CGI IT UK Ltd
		6	Little Fish (UK) Ltd
		7	Risual Ltd
		8	Verdict Media PCC
		9	Vysion Ltd
163	Menter TGCh Cyn Cymhwyso Gwasanaethau Cyfathrebu	1	BT Plc
		2	Capita Business Services
		3	CGI IT UK Limited
		4	North PB Ltd
		5	Six Degrees Technology Group
		6	Telent Technology Services Ltd
		7	Verdict Media plc
		8	Virgin Media Business Ltd
164	Menter TGCh Cyn Cymhwyso Systems Services	1	Atos IT Services UK Ltd
		2	BT Plc
		3	CACI Ltd
		4	Capita Business Services
		5	CDW Ltd
		6	CGI IT UK Ltd
		7	Exponential-e Ltd
		8	Mobilise Cloud Services Ltd
		9	Risual Ltd
		10	Six Degrees Technology Group
		11	Vysion Ltd
165	Addasiadau i Adeilad VCC	1	Brenig Construction
		2	Elate Construction Ltd
		3	Housing Maintenance Solutions Ltd
		4	ParkCity Multitrade Ltd
		5	R L Davies & Son Ltd

166	Uned 31 Adnewyddu Ysgol Hyfforddiant	1	Elate Construction Ltd
		2	NWPS Construction Ltd
		3	ParkCity Multitrade Ltd
		4	RELM Group Ltd
167	Gorsaf Heddlu Dolgellau – Llwyfan newydd Liff	1	A1 Access Lifts Ltd

4. CYNIGION WEDI'U SELIO

Dim

5. HEPGOR RHEOLAU SEFYDLOG

Cymorth Swîr Power Apps

Sganwyr Laser

Uned ScenePro ar gyfer FCIN

Ers y rhai a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf ar 31 Mawrth 2021

Dylid nodi bod yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2021 sef y dyddiad y cwblhawyd ef.

Hawliadau Sifil ac achosion Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2021

Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu, Sarah Hughes, yn ymdrin â'r holl hawliadau sifil Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a gyhoeddwyd yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru.

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi

- 1) darparu manylion am nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a wnaed yn erbyn yr Heddlu ym mhob blwyddyn ariannol.
- 2) rhoi barn am unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 3) darparu manylion yr arian a dalwyd mewn setliad ym mhob blwyddyn ariannol.

CEFNDIR

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPR) yn berthnasol wrth gynnal achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. O dan y Protocol Cyn Gweithredu a nodir yn y Rheolau, mae'n ofynnol i unrhyw ddarpar hawliwr gyflwyno llythyr hawlio ar Heddlu Gogledd Cymru fel ymatebydd sy'n nodi ei hawliad yn llawn. Yn unol â hynny, mae'r holl hawliadau a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru fel arfer yn cynnwys llythyr o hawliad yn honni niwed ac yn gofyn am iawndal. Mae'n torri'r rheolau gweithdrefnol i weithdrefnau gael eu cyhoeddi y tu allan i reolau'r protocol cyn gweithredu. Serch hynny nid yw'n anghyffredin.

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr yw'r rhai a dderbynnir gan weithwyr yr Heddlu (swyddogion a staff) ac maent yn cynnwys hawliadau Anafiadau Personol sy'n deillio o golled neu anaf a gafwyd yn ystod dyletswydd neu gyflogaeth.

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hawliadau a gyflwynir gan y cyhoedd yw hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus. Gall hawliadau o'r fath gynnwys honiadau o arestio anghyfreithlon, carchariad ffug, defnydd anghyfreithlon o rym, difrod i eiddo ac erlyniad maleisus.

Hawliadau Cerbydau

Ymdrinnir â hawliadau damweiniau cerbydau gan ein hyswirwyr a'r Adran Fflyd. Caiff unrhyw faterion wedi eu hymgyfreithio eu goruchwyllo gan Gyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu o 1 Mawrth 2013.

Adran y Fflyd sy'n cadw data a gedwir mewn perthynas â hawliadau o'r fath.

Cydnheredd yr Adran Gyfreithiol

Atebolrwydd Cyflogwyr

Mae ein Hyswirwyr yn ymdrin â hawliadau o'r fath sy'n cael eu goruchwyllo gan Gyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu. Caiff rhai hawliadau eu contractio allan gan Zurich a Gallagher Bassett os byddant yn cael eu hymgyfreithio. Fodd bynnag, bydd yr Adran Gyfreithiol yn ymdrin â phob digwyddiad sy'n digwydd ar ôl 1 Ebrill 2017 yn fewnol. Cytunwyd ar hyn gan ein hyswirwyr.

Atebolrwydd Cyhoeddus

Ymdrinnir â phob hawliad a'i reoli gan Gyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu. Mae lleiafrif o'r hawliadau hyn yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Goruchwylir pob un gan Gyfreithiwr yr Heddlu.

MANYLION

O 1 Ebrill – 30 Medi 2021 derbyniwyd **22** o lythyrau hawliad Dyled Cyflogwyr. Roedd **un** yn hawliad Atebolrwydd Cyflogwyr ac roedd **21** yn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus.

Mae'r tabl isod, lle mae wedi'i farcio'n goch, yn dangos cyfanswm nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2021. Mae trafodion wedi'u rhoi o ran un o'r hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y chwe mis diwethaf.

(TABL 1) – CYFANSWM NIFER O HAWLIADAU A DDERBYNIWYD

Blwyddyn	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus	Cyfanswm
2016/2017	3	50	53
2017/2018	5	52	57
2018/2019	5	49	54
2019/2020	7	41	48
2020/2021	6	43	49
2021/2022	1	21	22

Manylion yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod cyfnod 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021, yn dilyn ymlaen o gŵyn.
1 Ebrill – 30 Medi 2021 yn dilyn cwyn

Hawliadau dderbyniwyd dilyn cwyn	a yn	Canlyniadau cwynion	Canlyniadau Hawliad Sifil
9		1 cwyn wedi'i chadarnhau 3 cwyn wedi'u cadarnhau'n rhannol 4 cwyn heb eu cadarnhau 1 cwyn yn parhau	5 o hawliadau'n cael eu hamddiffyn 1 hawliad wedi'i setlo 3 hawliad yn cael eu hymchwilio

(TABL 2) CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU BYW

Ar hyn o bryd mae hawliadau byw parhaus yn cael eu hymdrin yn yr Adran Gyfreithiol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd yn erbyn blwyddyn wirioneddol y digwyddiad. (Hawliad sy'n parhau'n fyw yw hawliad gweithredol ac nad yw wedi'i benderfynu eto).

Blwyddyn y Digwyddiad	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
1982/1983	0	1
1999/2000	0	1
2012/2013	0	2
2013/2014	1	2
2014/2015	1	1
2015/2016	0	0
2016/2017	0	0
2017/2018	0	1
2018/2019	3	4
2019/2020	2	10
2020/2021	1	11
2021/2022	0	7
CYFANSWM	8	40
CYFANSWM NIFER Y CYFLOGWYR BYW A HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS:		48

Y SEFYLLFA BRESENNOL O RAN HAWLIADAU SIFIL BYW

	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd Cyhoeddus
Trafodion a gyhoeddwyd	1	8
Hawliadau wedi'u gwrthbrofi'n llwyddiannus ond heb eu cau eto	0	15
Hawliadau heb eu datrys eto	7	13
Hawliadau'n dal i gael eu hymchwilio/cwynion yn parhau	1	12

(TABL 3) - HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYFLOGWYR

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Llithriadau, bagladau a syrthiadau.	3	1	2	5	3	1
Straen/Bwlio	0	0	0	0	0	0
RSI	0	0	0	0	0	0
Colli clyw	0	0	0	0	0	0
Anaf ar gwrs hyfforddi	0	1	3	0	0	0
Arall	3	2	0	2	2	0
Anafiadau i fysedd/dwylo	0	1	0	0	1	0
Cyfanswm	6	5	5	7	6	1

Sylwadau



Y math mwyaf cyffredin o hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd uchod oedd achosion o lithro, baglu a disgyn.

(TABL 4) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o niwed a hawliwyd amlaf mewn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Efallai y bydd un neu fwy o categorïau difrod mewn un hawliad felly nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer yr hawliadau a dderbynnir fel yn Nhabl 1 (blaenorol).

Math o Hawliad a Dderbyniwyd	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Ymosod a churo	11	5	4	3	9	7
Colled Ganlyniadol	1	3	0	2	0	1
Carcharu ar Gam	18	8	14	11	12	9
Erlyniad Maleisus	5	2	0	1	3	4
Esgeulustod	4	4	6	11	4	3
Arall	24	23	13	12	21	12
Difrod/atafaeliad Eiddo	17	21	24	18	14	4
Tresmasu i Unigolyn	0	3	2	2	4	4
Tresmasu i Eiddo	6	1	4	2	6	1
Arestio Anghyfreithlon	11	4	2	6	6	8
Cyfanswm	97	74	69	68	79	53

Iawndal a ddyfarnwyd i Hawlwyr rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2021



**Costau a dalwyd i Gyfreithwyr Hawlwyr mewn perthynas â hawliadau sefydlog
rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2021**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£2364.00	£1820.40

**Costau cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â hawliadau sifil sefydlog
a gadarnhawyd rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2021**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£0.00	£0.00

Taliadau CRU a GIG

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
£743.00	£0.00

Dadansoddiad o'r hawliadau a setlwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyflogwyr	Anaf personol	1

Categori	Hawliad	Niferoedd o hawliadau a setlwyd
Atebolrwydd Cyhoeddus	Carcharu ar Gam	2
Atebolrwydd Cyhoeddus	Torri'r Ddeddf Hawliau Dynol	1
Atebolrwydd Cyhoeddus	Ddifrod i eiddo	2

CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU SIFIL A GAEWYD

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am nifer yr hawliadau sydd wedi'u 'cau' ers Ebrill 2015. Mae'r tabl yn rhoi manylion hawliadau a setlir a lle a setlwyd a lle nad oes setliad wedi'i dalu ynghyd â'r cyfanswm ar gyfer pob blwyddyn.

1 Ebrill - 31 Mawrth	Hawliadau wedi eu cytuno arnynt	Ni thalwyd unrhyw setliadau	Cyfanswm ar gau
2015/2016	13	40	53
2016/2017	10	24	34
2017/2018	20	42	62
2018/2019	15	53	68
2019/2020	16	39	55
2020/2021	20	38	58
2021/2022	6	21	27

Fel y gwelwch, mae nifer yr hawliadau sy'n cael eu "gwrthbrofi" lle nad oes arian wedi'i dalu fel arfer yn fwy na'r rhai lle mae arian wedi'i dalu. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu safbwynt cadarn yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ag amddiffyn hawliadau sifil yn gyffredinol.

Nifer yr Hawliadau Sifil ar contract allanol

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Blwyddyn	Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan
2016/2017	6	1
2017/2018	5	0
2018/2019	5	0
2019/2020	7	0
2020/2021	6	0
2021/2022	1	0

Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Blwyddyn	Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd	Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan
2015/2016	33	3
2016/2017	50	0
2017/2018	52	2
2018/2019	49	0
2019/2020	41	0
2020/2021	43	0
2021/2022	21	0

Materion Cyflogaeth

Manylion Hawliadau Cyflogaeth Fyw


Derbyniwyd	Manylion Hawliadau Byw
2015/2016	499 x Gwahaniaethu ar sail Oedran (Pensiwn) Ymdrinnir â'r hawliadau hyn yn genedlaethol a rhagwelir y bydd y Swyddfa Gartref yn diwygio'r Rheoliadau i ddileu'r gwahaniaethu.
2018/2019	1 x Gwahaniaethu ar sail Hil Cyfredol.
2020/2021	2 x Gwahaniaethu ar sail anabledd Cyfredol. 1 x Gwahaniaethu ar sail Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol Cyfredol.
2021/2022	1 Gwahaniaethu Rhywiol Anuniongyrchol a Chwythu Chwiban Cyfredol.



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 8 Rhagfyr 2021

Teitl:	Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Diweddariad
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth <input type="checkbox"/>
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Roedd dau aelod o'r CA yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2021.• Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd gan driwlynlysoedd cyflogaeth.• Cyflwynwyd astudiaeth achos: Proses Strwythur Llywodraethu i Benderfyniad – Strategaeth Cyrchu TG•
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.•
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgymerwyd yn 2019/20. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

8 Rhagfyr 2021

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd
Heddlu a Throstedd



1. Cefndir

- 1.1. Ffurfiwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn 2014 er mwyn dogfennu trefniadau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd a Heddlu Gogledd Cymru.
- 1.2. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac mae rhaglen waith wedi'i pharatoi.
- 1.3. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod; mynychodd Cadeirydd y Cydbwyllgor ac un aelod ar 28 Hydref 2021, a chyfrannu i'r cyfarfod.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yw:
 - 1 Mawrth 2022 am 10am
 - 22 Mehefin 2022 am 10am
 - 7 Medi 2022 am 10am
 - 9 Tachwedd 2022 am 10am

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2021, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Gwersi tribiwnlys cyflogaeth a ddysgwyd

- Dywedodd Cyfreithiwr yr Heddlu, er bod Heddlu Gogledd Cymru yn cymharu'n dda â heddluoedd eraill, y bu cynnydd diweddar mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth, gyda chwech neu saith ar y gweill ar yr un pryd.

- Nodwyd bod nifer o hawliadau diweddar yn ymwneud â gwahaniaethu, ac o'r rhain roedd y rhan fwyaf yn gysylltiedig â gwahaniaethu ar sail anabled. Thema gyffredin gyda'r rhain oedd symudiadau swyddfa, lle nodwyd rhai diffygion yn y broses. Er mwyn datrys hyn, yn y dyfodol, bydd yr holl bartion perthnasol yn cael eu cynnwys i sicrhau bod goblygiadau'r cam arfaethedig yn cael eu deall.
- Roedd themâu eraill yn cynnwys perfformiad gwael, cadw cofnodion, ac adnewyddu meddalwedd a thrwyddedau. Sylwodd aelod y Cydbwyllgor Archwilio, ar adegau, efallai na fydd rheolwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt gywiro offer i ddelio â materion perfformiad, a gofynnodd pa fesurau a hyfforddiant y gellir eu rhoi ar waith er mwyn datrys materion yn gynharach fel na fyddai angen tribiwnlys cyflogaeth. Dywedodd Cyfreithiwr yr Heddlu bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno, ond mae angen monitro er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn glir pryd y mae angen i Adnoddau Dynol ymdrin â mater.

3.2.2. Astudiaeth Achos: Proses strwythur llywodraethu at benderfyniad – strategaeth cyrchu TG

Gwnaeth y Pennaeth TG gyflwyniad i ddangos y llywodraethu ar y rhaglen hon.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau, ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gofnodi ac yna cyhoeddi'r canlyniad fel hysbysiad penderfynu, oherwydd natur sylweddol a sylweddol y penderfyniad hwn, a'i fod yn fater o ddiddordeb i'r cyhoedd.

3.2.2 Archwiliad mewnol ac allanol

Trafodwyd y cynnydd o ran argymhellion archwilio.

Nodwyd bod tri adroddiad archwilio mewnol yn cael eu hadolygu, a disgwyliad pum adroddiad drafft arall yn fuan.

3.2.3 Nodiadau briffio cleientiaid a rhybuddion twyll

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wybodaeth am y rhain, ac esboniodd fod yr un camau a oedd yn dangos fel rhai agored yn yr adroddiad wedi dod i ben ar 28 Hydref 2021.

- 3.2 Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Mawrth 2022.

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiâu ariannol a monitro systemau ariannol a pherfformiad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, SCHTh

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 8 Rhagfyr 2021

Teitl:	Adroddiad Dwywaith y Flwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021-22
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Adrodd ar gyflawniad rheoli'r trysorlys
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn gofyn i adroddiad ar gyflawniad Rheoli'r Trysorlys gael ei ystyried o leiaf ddwywaith y flwyddyn. • Mae'n cynnwys crynodeb o weithrediadau Rheoli'r Trysorlys a wnaed yn chwe mis cyntaf 2021-22. • Mae'n ymdrin â buddsoddi arian parod sy'n weddill ac unrhyw ofynion benthyca. • Mae'n tynnu sylw at a dorrwyd unrhyw gyfyngiadau neu ddangosyddion ai peidio. Yn y 6 mis sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn, ni thorrwyd dangosyddion statudol. • Diwygiwyd geiriad yn Strategaeth Gyfalaf 2021-22 i ffurfioli'r polisi ynghylch toriadau bach i'r dangosydd hylifedd gwirfoddol (gweler Adran 9).
Argymhellion:	Cyflwynir yr adroddiad i'r CA am wybodaeth a sylwadau, ac i roi ei sicrwydd cyn cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim effaith – mae'r trefniadau wedi'u llunio i reoli'r risg o fuddsoddi a benthyg.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyflawniad o ran rheolau a chyfyngiadau a gytunwyd ar gyfer buddsoddi a benthyg arian yn ôl y strategaeth Rheoli'r Trysorlys sydd mewn lle ar gyfer 2021-22
Effaith Cydraddoldeb:	Dim effaith.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi.

Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys o fis Ebrill 2021 i fis Medi 2021

1. Cyflwyniad

Cod Ymarfer: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (y Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo adroddiadau rheoli'r trysorlys chwe-misol a blynyddol. Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn cynnig diweddariad ychwanegol.

Mabwysiadwyd strategaeth rheoli'r trysorlys 2020/21 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ffurfiol fel rhan o'i Strategaeth Gyfalaf ar 31 Mawrth 2021 gan y Comisiynydd yn dilyn craffu gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 30 Mawrth 2021. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi benthycu a buddsoddi symiau sylweddol o arian. Mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddiwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo i nodi, monitro a rheoli risg yn parhau'n ganolog i strategaeth rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rhagolygon economaidd a'r cyd-destun allanol yn Atodiad A.

2. Cyd-destun Lleol

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau net o £21.9m yn codi o'i refeniw ac incwm cyfalaf a gwariant. Mae'r angen sylfaenol i fenthycu at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yn adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

	Presennol 31.3.21 £m	Meincnod 2020-21 £m
GCC Cronfa Gyffredinol	30.0	33.9
Llai: *Dyledion eraill	(9.1)	(9.1)
CFR Benthycu	20.9	24.8
Llai: Benthycu Allanol	(9.4)	# (14.8)
Benthycu mewnol	11.5	10.0
Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy	(33.0)	(20.2)
Ychwanegiad: Cyfalaf gweithio	(0.4)	0.2
Cyfanswm Buddsoddiadau	(21.9)	# (10.0)

* prydlesi cyllid, rhwymedigaethau PFI a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

i gynnal meincnod o isafswm buddsoddiad o £10m

Mae cyfraddau llog swyddogol is wedi gostwng cost benthyciadau tymor byr, dros dro ac enillion buddsoddi o asedau arian parod y gellir eu defnyddio yn lle benthycu. Dilynodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei strategaeth o barhau i gadw benthycu a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol. Adwaenir hwy weithiau fel benthycu mewnol, er mwyn lleihau risg.

Mae sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2021 a'r newid dros y chwe mis yn cael ei ddangos yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli'r Trysorlys

	Balans 31.3.21 £m	Symudiad £m	Balans 30.9.21 £m	Cyfradd 30.9.21 %
Benthyciadau tymor hir	9.4	(0.3)	9.1	1.25
Benthyciadau tymor byr	0.0	0.0	0.0	0
Cyfanswm benthycia	9.4	(0.3)	9.1	1.25
Buddsoddiadau tymor hir	0.0	0.0	0.0	0
Buddsoddiadau tymor byr	(6.0)	(20.0)	(26.0)	(0.01)
Arian parod ac arian parod cyfwerth	(15.9)	(0.2)	(16.1)	(0.03)
Cyfanswm Buddsoddiadau	(21.9)	(20.2)	(42.1)	(0.02)
Benthycia net / (buddsoddiadau)	(12.5)	(20.5)	(33.0)	1.23

Mae llif arian parod yn ddrwg-enwog o anghyfartal drwy gydol y flwyddyn ariannol oherwydd y cyfraniad gan y Swyddfa Gartref tuag at Bensiynau'r Heddlu'n cael eu talu'n un cyfandaliad ym mis Gorffennaf (oddeutu £20m).

3. Diweddariad Benthycia

Gall Comisiynwyr Heddlu a Throsedd fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar yr amod y gallent gadarnhau nad ydynt yn cynllunio prynu 'asedau buddsoddi yn bennaf am arenillion' yn y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd nesaf, gyda chadarnhad o ddiben gwariant cyfalaf gan y Swyddog Adran 151. Ni fydd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sy'n prynu neu sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi'n bennaf am arenillion yn gallu cael mynediad at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus oni bai er mwyn ail-gyllido benthyciadau presennol neu allanoli benthycia mewnol.

Mae defnydd derbyniol o fenthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn cynnwys cyflawni gwasanaeth, tai, adfywio, gweithredu ataliol, ail-gyllido a rheoli'r trysorlys.

Gall dewisiadau marchnad cystadleuol fod ar gael i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd gyda neu heb fynediad at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Fodd bynnag, craffir ar gryfder ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd unigol a diben benthycia gan fenthycwyr masnachol. Mae newidiadau pellach i God Darbodus CIPFA, a ddisgwyllir ym mis Rhagfyr 2021, yn debygol o wahardd benthycia ar gyfer y prif ddiben o ddychweliad masnachol hyd yn oed os nad y ffynhonnell benthycia ydy'r Bwrdd Benthyciadau Bwrdd Cyhoeddus.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynllunio prynu unrhyw asedau buddsoddi yn bennaf am arenillion o fewn y tair blynedd nesaf. Mae felly'n gallu cael mynediad llawn at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

4. Strategaeth Fenthyca yn ystod y cyfnod

Ar 30 Medi 2021 cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd £9.1m o fenthyciadau (gostyngiad o £0.3m i 31 Mawrth 2021), fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a'r blynyddoedd presennol. Crynhoir benthyciadau dros ben ar 30 Medi yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Sefyllfa Fenthyca

	Balans 31.3.21 £m	Symudiad Net £m	Balans 30.9.21 £m	Cyfartaledd Pwysol Cyfradd 30.9.21 %	Cyfartaledd Pwysol Aeddfedrwydd 30.9.21 (blynyddoedd)
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	9.4	(0.3)	9.1	1.25	17.0
Awdurdodau Lleol (tymor byr)	0.0	0.0	0.0	-	-
Cyfanswm benthyca	9.4	(0.3)	9.1	1.25	17.0

Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Ceir hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau fel amcan eilradd os yw cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd GCC cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf a gofyniad benthyca tybiedig fel y penderfynir gan y Meincnod Dyledion sydd hefyd yn ystyried cronfeydd defnyddiadwy wrth gefn a chyfalaf ymarferol. Gwnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fenthyg £10m o fenthyciadau cyfradd sefydlog, ceir manylion isod. Mae'r benthyciadau hyn yn cynnig sicrwydd tymor-hir a sefydlogrwydd i bortffolio dyled.

Benthyciadau hir-ddyddiedig a fenthycwyd:	Swm £m	Cyfradd %	Cyfnod (Blynyddoedd)
Benthyciad PWLB EIP 1 dyddiedig 16.8.19	5.00	1.25	20
Benthyciad PWLB EIP 2 dyddiedig 3.10.19	5.00	1.25	20

Bu elw ariannu y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn eithaf sylweddol ac mae dadl gref o hyd dros arallgyfeirio ffynonellau ariannu, yn enwedig os gellir cyflawni cyfraddau ar ddewisiadau amgen sy'n is na chynnyrch gilt ynghyd â 0.80%. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwerthuso ac yn mynd ar drywydd yr atebion a'r cyfleoedd cost is hyn gyda'i gynghorydd Arlingclose.

5. Gweithgarwch dyled arall

Er nad ystyrir fel benthyca, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gytundeb tymor hir o dan PFI (Menter Gyllid Breifat). Ar 31 Mawrth 2021 arhosodd cyfanswm dyled oni bai am fenthyca ar £9.1m, gan fynd â chyfanswm dyled i £18.5m. Amcangyfrifir mai cyfanswm y ddyled ar 30 Medi 2021 ydy

£17.8m.

6. Gweithgarwch Buddsoddiadau'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd wedi'u buddsoddi, gan gynrychioli incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y cyfnod o chwe mis, roedd balansau buddsoddiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd rhwng £14.9m a £47.0m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Gweler y sefyllfa fuddsoddi yn nhabl 4 isod.

Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddiadau'r Trysorlys

	Balans 31.3.21 £m	Net Symudiad £m	Balans 30.9.21 £m	Cyfradd Elw 30.9.21 %	Dyddiau Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol 30.9.21 dyddiau
Banciau a chymdeithasau adeiladu (anwarantedig) – yn cynnwys cyfrif rhybudd 31 diwrnod gyda HSBC	15.9	0.2	16.1	0.03	0.19
Llywodraeth (yn cynnwys awdurdodau lleol)	6.0	20.0	26.0	0.01	17.22
Cyfanswm Buddsoddiadau	21.9	20.2	42.1	0.02	17.42

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarvoudus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd orau o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae cyfraddau arian parod byr-ddyddiedig isel iawn, sydd wedi'u cynnwys ers mis Mawrth 2020 pan dorrwyd y Gyfradd Fanc i 0.1% wedi arwain at elw ar gronfeydd marchnad arian gwerth asedau net ansefydlogrwydd isel sterling (MMFs LVNAV) i fod yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr ostwng eu ffioedd dros dro. Ar hyn o bryd, nid yw elw negyddol net yn achos canolog y rhan fwyaf o reolwyr MMF dros y tymor byr, a dylai torri a hepgor ffioedd arwain at arenillion net MMF fod yn sero, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd.

Mae'r cyfraddau adneuo gyda Chyfleuster Adneuo'r Cyfrif Rheoli Dyledion (DMADF) hefyd o amgylch sero'n bennaf.

Dangosir cynnydd metrigau risg ac elw yn y darnau o feincnodi buddsoddiadau chwarterol Arlingclose yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Meincnodi Buddsoddiadau – buddsoddiadau'r Trysorlys wedi'u rheoli'n fewnol

	Sgôr Credyd	Gradd Gredyd	Dadleniad Achub Croen	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (dyddiau)	Cyfradd Elw %
31.03.2021	4.45	AA-	74%	5	0.02%
30.09.2021	4.22	AA-	45%	12	0.02%
LAs Tebyg	4.45	AA-	75%	22	0.73%
Holl LAs	4.69	A+	69%	10	2.35%

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyllidebu £100k o incwm o'r buddsoddiadau hyn mewn blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniad presennol ar gyfer incwm buddsoddi yn £6k yn 2021/22, sydd fel y lefel o incwm buddsoddi presennol a dderbyniwyd yn 2020/21.

7. Buddsoddiadau Ddim yn y Trysorlys

Mae diffiniad buddsoddiadau yn y Cod Rheoli'r Trysorlys diwygiedig bellach yn cwmpasu holl asedau ariannol yr Awdurdod ynghyd ag asedau anariannol eraill y mae'r Awdurdod yn ei gadw am elw ariannol. Ailadroddir hyn yn y Canllawiau Buddsoddi a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) a Llywodraeth Cymru, lle ehangir y diffiniad o fuddsoddiadau ymhellach er mwyn cynnwys holl asedau tebyg a gedwir yn rhannol am elw ariannol.

Nid oes gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd unrhyw fuddsoddiadau nad oedd yn y trysorlys yn 6 mis cyntaf 2021/22.

8. Cydymffurfiaeth

Dywed y Prif Swyddog Cyllid fod holl weithgareddau rheoli'r trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cymeradwy Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Gwelir cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn nhabl 7 isod.

Dangosir cydymffurfiaeth gyda'r terfyn awdurdodedig a ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 7 isod.

Tabl 7: Terfynau Dyled

	Uchafswm H1 £m	Presennol 30.9.21 £m	Ffin Weithredol 2021/22 £m	Terfyn Awdurdodedig 2021/22 £m	Yn cydymffurfio? Ydy/Nac ydy
Benthycia	9.4	9.1	25.9	27.9	-
PFI a Phrydlesoedd Cyllid	9.1	8.7	# 8.2	# 8.2	-
Cyfanswm dyled	18.5	17.8	34.1	36.1	Ydy

yn seiliedig ar y sefyllfa diwedd blwyddyn

Gan fod y ffin weithrediadol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro blwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os torrir y ffin weithrediadol ar brydiau oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod. Ni chyfrifir hyn fel methiant cydymffurfiaeth.

Tabl 8: Terfynau buddsoddiad

	Uchafswm H1 £m	Presennol 30.9.21 £m	Terfyn 2021/22 £m	Yn cydymffurfio? Ydy/Nac ydy
Unrhyw sefydliad unigol, oni bai am Lywodraeth y DU	4.0	4.0	7.0	Ydy
HSBC (bancwyr y Comisiynydd)	9.8	8.1	10.0	Ydy

9. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur a rheoli ei ddadleniadau at risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Gwarantiad: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r cyfradd credyd cyfartalog a bwysa'r gwerth o'i bortffolio buddsoddiadau.

	Presennol 30.9.21	Targed 2021/22	Yn cydymffurfio?
Statws credyd gyfartalog portffolio	AA-	A-	Ydy

Hylifedd: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis treiglol. Gosodwyd cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod at ddibenion ymarferol er mwyn osgoi benthycu tymor byr diangen.

	Sylfaenol H1	Presennol 30.9.21	Targed 2021/22	Yn cydymffurfio?
Lleiafswm arian parod sydd ar gael dros nos	-	£16.1m	£10m	Ydy
Terfyn is am uchafswm o 14 diwrnod	£10.0m	-	£7.5m	Ydy

Strwythur Aeddfedrwydd Benthycu: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod er mwyn rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail-ariannu. Roedd terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthycu yn:

	30.9.21 Presennol	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	Yn cydymffurfio?
O dan 12 mis	3.87%	100%	0%	Ydy
12 mis ac o fewn 24 mis	8.16%	100%	0%	Ydy
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	27.34%	100%	0%	Ydy
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	36.04%	100%	0%	Ydy

10 mlynedd a mwy	24.59%	100%	0%	Ydy
------------------	--------	------	----	------------

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Prif Symiau Fuddsoddwyd am gyfnodau hirach na blwyddyn: Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau ar y prif swm tymor hir a fuddsoddwyd i aeddfedrwydd terfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod oedd:

	2021/22	2022/23	2023/24
Prif swm presennol a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£5m	£3m	£1m
Yn cydymffurfio?	Ydy	Ydy	Ydy

10. Adolygiadau i'r Codau CIPFA

Ym mis Chwefror 2021 gwnaeth CIPFA lansio dau ymgynghoriad ar newid i'w God Darbodus a Chod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys. Roedd y rhain yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai'r fframwaith darbodus gael ei dynhau ymhellach yn dilyn benthycia parhaus gan rai awdurdodau at ddibenion buddsoddi. Ym mis Mehefin, rhoddodd CIPFA adborth o'r ymgynghoriad hwn.

Ym mis Medi gwnaeth CIPFA gyhoeddi'r Codau a'r Nodiadau Canllaw ar ffurf drafft ac agorodd y broses ymgynghori ddiweddaraf ar eu newidiadau arfaethedig. Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Eglurhad (a) na ddylai awdurdodau lleol fenthyg i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer elw ariannol (b) nad yw'n ddarbodus i awdurdodau wneud unrhyw benderfyniadau ar fuddsoddi neu wario a wnaiff gynyddu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf, ac y gall arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn berthnasol yn uniongyrchol neu'n bennaf i swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Categoriadau buddsoddiadau fel y rhai hynny (a) at ddibenion rheoli'r trysorlys, (b) at ddibenion gwasanaeth a (c) at ddibenion masnachol.
- Diffinio rhesymau derbyniol i fenthyca arian: (i) ariannu gwariant cyfalaf sy'n bennaf yn berthnasol i gyflawni swyddogaethau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Lleol, (ii) rheolaeth dros dro o lif arian parod o fewn cyd-destun cyllideb gytbwys, (iii) sicrhau fforddiadwyedd drwy dynnu amlygiad i gynnydd yn y gyfradd log yn y dyfodol ac (iv) ail-ariannu benthycia presennol, gan gynnwys disodli benthycia mewnol.
- Ar gyfer buddsoddiadau gwasanaeth a masnachol, ar ben asesiadau fforddiadwyedd a darbodaeth, asesiad o gymesuredd o ran gallu ariannol cyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (h.y. a ellid amgyffred colledion credadwy mewn cyllidebau neu gronfeydd wrth gefn heb anfantais na ellir ei reoli i wasanaethau lleol).
- Dangosyddion Darbodus
 - Dangosydd newydd ar gyfer incwm net o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaeth i'r llyfrefeniw net wedi'i gyllidebu.

- Cynnwys y meincnod dyled fel dangosydd darbodus rheoli'r trysorlys gorfodol. Mae CIPFA yn argymhell y cyflwynir hyn fel siart o bedwar balans – dyled benthyciad presennol sy'n weddill; GCC benthyciadau, gofyniad benthyciadau net, meincnod dyled – dros o leiaf 10 mlynedd ac yn ddelfrydol yn gofalu am broffil aeddfedrydd dyled llawn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Eithrio incwm buddsoddiad o ddiffinio costau cyllido.
- Ymgorffori materion ESG fel ystyriaeth o fewn Rheoli Risg TMP 1.
- Ffocws ychwanegol ar wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau etholedig sydd ynghlwm mewn gwneud penderfyniadau

Rhagolwg Economaidd Arlingclose ar gyfer gweddill 2021/22 (ar sail rhagolwg cyfradd llog mis Hydref 2021)

	Dec-21	Mar-22	Jun-22	Sep-22	Dec-22	Mar-23	Jun-23	Sep-23	Dec-23	Mar-24	Jun-24	Sep-24	Dec-24
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.15	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Arlingclose Central Case	0.10	0.10	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Downside risk	0.00	0.00	0.15	0.15	0.15	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40	0.40

Mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc godi yn Ch2 2022. Rydym yn credu y cymhellir hyn cymaint gan ddyhead Banc Lloegr i symud o lefelau argyfwng â gan ofnau o bwysau chwyddiant.

Mae buddsoddwyr wedi prasio mewn codiadau lluosog yn y Gyfradd Fanc i 1% erbyn 2024. Tra creda Arlingclose y gwnaiff y Gyfradd Fanc godi, mae i raddau llai na'r disgwyl gan farchnadoedd.

Mae'r economi fyd-eang yn parhau i wella o'r pandemig ond mae wedi mynd i gyfnod mwy heriol. Mae atgyfodiad galw wedi arwain at y cynnydd disgwylidig mewn pwysau chwyddiant, ond mae ffactorau amharedig cyflenwi'n ymhelaethu'r effeithiau, gan gynyddu'r tebygolrwydd o gyfraddau twf is i ddod. Mae hyn yn hynod amlwg yn y DU oherwydd effaith Brexit.

Tra ehangodd GDP y DU yn Ch2 yn gyflymach nag a feddylwyd i ddechrau, bydd y 'pingdemig' ac amhariad i gyflenwadau yn ddiweddar iawn yn gadael GDP Ch3 yn farwaid yn fras. Mae'r rhagolwg hefyd yn ymddangos yn wannach. Mae gwariant tŷ, sef cymhellwr yr adferiad hyd yma, o dan bwysau o gyfuniad o gynnydd mewn prisiau ynni manwerthu, diwedd rhaglenni cymorth y llywodraeth a chodiadau treth yn fuan. Bydd gwariant y llywodraeth, sef cymhellwr arall adferiad, yn arafu'n sylweddol wrth i'r economi adfer.

Cododd chwyddiant i 3.2% ym mis Awst. Bydd cyfuniad o ffactorau yn cymhell hyn i dros 4% yn y tymor agos. Tra disgwylir i ffactorau dros dro sy'n effeithio chwyddiant, gan gynnwys effaith sylfaen isel 2020, ddad-ddirwyn dros amser, mae'r MPC wedi trosglwyddo ofnau'n ddiweddar y bydd y ffactorau dros dro hyn yn bwydo disgwyliadau chwyddiant tymor hirach sydd angen polisi ariannol tynnach i'w reoli. Mae hyn wedi cymhell disgwyliadau cyfradd llog yn sylweddol uwch.

Mae'r anghydbwysedd cyflenwad yn amlwg yn y farchnad lafur. Tra mae twf cyflogau yn codi ar hyn o bryd oherwydd ffactorau cyfansoddiadol a sylfaenol, straeon yn llawn o gyflogau uwch ar gyfer sectorau penodol, gan gymhell disgwyliadau chwyddiant. Mae'n ansicr a ydy cynnydd eang ei sail mewn cyflogau yn bosibl o ystyried y pwysau ar fusnesau.

Cynyddodd arenillion bondiau'r llywodraeth yn gyflym yn dilyn cofnodion FOMC a MPC mis Meddi, lle gwnaeth banciau canolog drosglwyddo goddefgarwch is am chwyddiant uwch nag a feddylwyd yn flaenorol. Mae'r MPC wedi cryfhau'r signalau hyn er data economaidd meddalach. Mae

buddsoddwyr bondiau yn disgwyl cyfraddau llog tymor agos uwch ond maent hefyd yn amlwg yn ansicr ynghylch polisi banc canolog.

